


Adolygiadau o farcio a chymedroli ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru: cyfres arholiadau Haf 2018



Uchafbwyntiau

13 Rhagfyr 2018


Ffig.1: Graddau TGAU/TAG a heriwyd a graddau a newidiwyd



Y datganiad hwn


Mae'r datganiad ystadegol hwn yn rhoi gwybodaeth am nifer yr adolygiadau o waith marcio a chymedroli ac adolygiadau o wallau gweinyddol (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'adolygiadau') a wnaed yn dilyn cyfres arholiadau haf 2018 a nifer y graddau cymwysterau a heriwyd ac a newidiwyd o ganlyniad i hynny. Mae'r ystadegau hyn wedi cael eu cyhoeddi fel ystadegau swyddogol.

Fffig 2: Newidiadau mewn marciau



Nid arweiniodd 72.3% o adolygiadau haf 2018 at newidiadau mewn marciau, i fyny o 55.4% yn 2017.

Fffig 3: Y graddau a gafodd eu herio fwyaf



Gradd D oedd 58.1% o'r graddau TGAU A*-G ar gyfer haf 2018 a heriwyd, sy'n gymaradwy â haf 2017 (58.4%).

Cynnwys

- Cyflwyniad..... [2](#)
- Ystadegau..... [4](#)
- Rhestr termau..... [8](#)
- Nodiadau
- cefndir..... [10](#)



CYFLWYNIAD

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru. O dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, ein prif nodau yw sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru.

O'r flwyddyn academaidd 2017/18, byddwn yn casglu ac yn adrodd ar ddata yng Nghymru ar gyfer cymwysterau cyffredinol. Cyn 2017-18, Ofqual oedd yn casglu ac yn cyhoeddi data ar gyfer Cymru. Mae'r cymariaethau a wneir yn y datganiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gan Ofqual ar gyfer haf 2014.

Yn y datganiad hwn, rydym yn cyflwyno data ar nifer y ceisiadau am adolygiadau o waith marcio, adolygiadau o gymedroli ac adolygiadau o wallau gweinyddol (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd drwy gydol yr adroddiad hwn fel 'adolygiadau' ac a elwid gynt yn ymholiadau am ganlyniadau) a wnaed i gyrrff dyfarnu ar gyfer cyfres arholiadau haf 2018.

Os bydd ymgeisydd yn poeni bod camgymeriad wedi digwydd pan fydd ei ddeunydd asesu wedi cael ei farcio, gall ofyn i'r corff dyfarnu adolygu'r gwaith marcio. Dim ond drwy ganolfannau mae cyrrff dyfarnu yn derbyn ceisiadau o'r fath ar hyn o bryd oni bai bod yr ymgeisydd yn ymgeisydd preifat. Mae pob corff dyfarnu yn cynnig tri gwasanaeth ar gyfer adolygu gwaith marcio papurau arholiadau ac asesiad di-arholiad:

Gwasanaeth 1: adolygiad o wallau gweinyddol ar gyfer asesiad unigol.

Gwasanaeth 2:

- *nad yw'n flaenoriaeth:* adolygiad o waith marcio ar gyfer asesiad unigol.
- *â blaenoriaeth:* adolygiad o waith marcio ar gyfer papur arholiad unigol – gall ysgolion a cholegau wneud cais am y gwasanaeth cyflymach hwn ar gyfer TAG i fyfyrwyr y mae eu lle mewn prifysgol yn ddibynnol ar y canlyniad,

Gwasanaeth 3: adolygiad o waith cymedroli asesiad mewnol yr ysgol neu'r coleg drwy ddefnyddio'r sampl o waith ymgeiswyr a ddefnyddiwyd yn y gwaith cymedroli cychwynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am y broses adolygu gwaith marcio a'r gwasanaethau gwahanol sydd ar gael yn y nodiadau cefndir yn yr adroddiad hwn.

Cynigiodd pedwar corff dyfarnu gymwysterau TGAU a TAG yng Nghymru yng nghyfres arholiadau haf 2018:

- AQA Education (AQA)
- Pearson Education Ltd (Pearson)
- WJEC-CBAC Ltd. (CBAC)
- Oxford Cambridge and RSA Examinations (OCR)

Cynigiodd y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA) niferoedd bach o gymwysterau TGAU ond ni chafodd unrhyw adolygiadau o waith marcio a chymedroli ar gyfer haf 2018.

DYLANWADAU ALLANOL

Diwygio Cymwysterau

Yn dilyn adolygiad gan Lywodraeth Cymru o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 19 oed¹ yn 2012, cyflwynwyd cyfres newydd o gymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch diwygiedig yng Nghymru. Mae'r cymwysterau diwygiedig hyn wedi'u cynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

Cyflwynwyd y cymwysterau diwygiedig i'w haddysgu gyntaf mewn tri cham. Addysgwyd cymwysterau Cam 1 o fis Medi 2015, cymwysterau Cam 2 o fis Medi 2016 a chymwysterau Cam 3 o fis Medi 2017. Ceir gwybodaeth am y newidiadau hyn, a rhestr o bynciau yr effeithir arnynt ar ein gwefan².

I gyd-fynd â'r diwygiadau yng Nghymru, cafodd cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch newydd eu cyflwyno yn Lloegr hefyd. Mewn rhai pynciau lle ceir nifer isel o ymgeiswyr, mae cymwysterau wedi'u diwygio ar gyfer Lloegr, ond nid Cymru. Mewn achosion o'r fath, gall y cymwysterau sydd wedi'u diwygio ar gyfer Lloegr gael eu cynnig fel rhan o gyrсияu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.

Gellir cymharu'r cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru a Lloegr o hyd – maent o'r un maint ac yn hygyrch i'r un ystod o ddysgwyr. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau cynllunio allweddol rhyngddynt. Mae cymwysterau TGAU a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru yn parhau i gael y graddau A*-G, ond mae'r cymwysterau TGAU a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr bellach yn destun

¹ Llywodraeth Cymru (2014) Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru. [ar-lein]. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf> [Cyrchwyd xxxxxx].

² <http://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/tgau-a-safon-uwch/diwygio-cymwysterau-cyffredinol/pa-bynciau-sydd-ar-gael/>

system raddio 9-1. Mae canlyniadau cymwysterau Uwch Gyfrannol a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru yn cyfrannu 40% tuag at radd Safon Uwch. Nid yw canlyniadau cymwysterau Uwch Gyfrannol yn cyfrif mwyach tuag at y cymwysterau Safon Uwch newydd a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr.

Newidiadau i adolygiadau o waith marcio

Ym mis Awst 2016, tynnodd Cymwysterau Cymru'r Cod Ymarfer ar gyfer cymwysterau TGAU, TAG, Prif Ddysgu a Phrosiect (y Cod) yn ôl a chyflwyno Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU a TAG. Mae'r Amodau hyn yn amlinellu'r gofynion ar gyfer adolygiadau o waith marcio a chymedroli y mae'n rhaid i fyrddau arholi sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru eu dilyn. Mae'r newidiadau yn adlewyrchu'r rheini a gyflwynwyd yn Lloegr.

Prif nod newid y broses adolygu gwaith marcio oedd gwneud yn siŵr bod unrhyw wallau wrth farcio cymwysterau TGAU a TAG yn cael eu canfod a'u cywiro, mewn ffordd sy'n deg i bob myfyriwr.

Mae'r newidiadau allweddol i'r broses adolygu gwaith marcio fel a ganlyn:

- Dim ond ar ôl adolygiad o wallau gweinyddol, adolygiad o waith marcio neu adolygiad o waith cymedroli os oedd gwall wedi digwydd y dylid newid marc, ac mae'n rhaid cofnodi'r rheswm dros hyn.
- Mae'n rhaid bod gan fyrddau arholi eu prosesau adolygu eu hunain ac mae'n rhaid iddynt gyhoeddi'r rhain, ac ni ddylent ddibynnu ar y rheini a ragnodwyd yn y Cod
- Mae'n ofynnol i fyrddau arholi hyfforddi adolygwyr (gan gynnwys y rheini sy'n cyflawni adolygiadau o waith cymedroli) cyn cyflawni adolygiadau a monitro eu perfformiad fel adolygwyr.

Gallai'r newidiadau hyn fod wedi effeithio ar nifer yr adolygiadau y gwnaed cais amdanynt ers haf 2016 a chanlyniadau'r adolygiadau.

YSTADEGAU

NIFER YR ADOLYGIADAU, GRADDAU A HERIWDYD A GRADDAU A NEWIDIWYD

A YW ADOLYGIADAU O WAITH MARCIO YN CYNYDDU DROS AMSER?

Mae ffigur 4 yn dangos bod 8,865 o adolygiadau TGAU yn haf 2018, i lawr 31.4% o gymharu â haf 2017 (12,935). Mae'r gostyngiad yn nifer y graddau TGAU a ddyfarnwyd yn egluro'r gostyngiad hwn yn rhannol, a ostyngodd 12.9% o 334,080 yn haf 2017 i 290,960 yn haf 2018 (Tabl 1).

Gostyngodd nifer y graddau TGAU a heriwyd 35.6% i 5,285 yn haf 2018, a gostyngodd nifer y graddau TGAU a newidiwyd hyn yn oed ymhellach i 725, gostyngiad o 59.4% o gymharu â haf 2017.


Gostyngodd cyfran y graddau TGAU a heriwyd o 2.5% i 1.8% yn haf 2018, a gostyngodd cyfran y graddau TGAU a newidiwyd o 0.5% i 0.2%. Fodd bynnag, mae'r metrigau yn parhau i fod yn unol â chyfran y graddau TGAU a heriwyd ac a newidiwyd dros y pedair cyfres arholiad haf flaenorol (Tabl 1).

Tabl 1: Nifer y graddau TGAU a ddyfarnwyd a nifer/cyfran y graddau TGAU a heriwyd ac a newidiwyd, haf 2014 i haf 2018


	2014	%	2015	%	2016	%	2017	%	2018	%
Graddau a ddyfarnwyd	319,190		310,595		303,780		334,080		290,960	
Graddau a heriwyd	5,980	1.9%	6,625	2.1%	6,890	2.3%	8,205	2.5%	5,285	1.8%
Graddau a newidiwyd	1,250	0.4%	1,590	0.5%	1,070	0.4%	1,790	0.5%	725	0.2%

Ffynhonnell: 2018 - Cyrff dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual


Ffigur 4: Nifer yr adolygiadau TGAU, haf 2014 i haf 2018




Ffigur 5: Nifer y graddau a ddyfarnwyd, graddau a heriwyd a graddau a newidiwyd ar gyfer cymwysterau TGAU, haf 2017 i haf 2018



Ffigur 6: Nifer yr adolygiadau TAG, haf 2014 i haf 2018



Ffigur 7: Nifer y ceisiadau am adolygiadau, graddau a heriwyd a graddau a newidiwyd ar gyfer cymwysterau TAG, haf 2017 i haf 2018



Ffynhonnell: 2018 - Cyrff dyfarnu; 2017 - Ofqual

Mae ffigur 6 yn dangos bod 2,960 o adolygiadau o waith marcio ar gyfer asesiadau TAG a safwyd yng nghyfes arholiadau haf 2018. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad bach o'r 3,020 yn haf 2017 a dyma'r drydedd gyfes haf yn olynol lle mae cyfanswm nifer yr adolygiadau wedi gostwng (Tabl 2).

Mae nifer y graddau TAG a ddyfarnwyd wedi bod yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn ers cyfes arholiadau haf 2015 (Tabl 2). Yn haf 2018 dyfarnwyd 78,470 o raddau TAG, gostyngiad o 6.6% o gymharu â'r 83,975 o raddau a ddyfarnwyd yn haf 2017.

Heriwyd llai o raddau TAG (i lawr 9.4% i 2,140) ac roedd llai o newidiadau mewn graddau (i lawr 24.9% i 330) yn haf 2018 o gymharu â haf 2017, er bod y gyfran o raddau TAG a heriwyd ac a newidiwyd yn parhau i fod yn gymaradwy â chyfresi arholiadau haf blaenorol.


Tabl 2: Nifer y graddau a ddyfarnwyd, graddau a heriwyd a graddau a newidiwyd ar gyfer cymwysterau TAG, haf 2014 o gymharu â haf 2018

	2014	%	2015	%	2016	%	2017	%	2018	%
Graddau a ddyfarnwyd	94,920		95,365		90,805		83,975		78,470	
Graddau a heriwyd	2,735	2.9%	3,410	3.6%	2,585	2.8%	2,360	2.8%	2,140	2.7%
Graddau a newidiwyd	525	0.6%	590	0.6%	435	0.5%	435	0.5%	330	0.4%

Ffynhonnell: 2018 - Cyrff dyfarnu; 2014 i 2017 - Ofqual


GRADDAU A HERIWDYD A GRADDAU A NEWIDIWYD YN ÔL MATH O WASANAETH

Ffigur 8 : Nifer y graddau a heriwyd a graddau a newidiwyd ar gyfer adolygiadau o waith marcio nad ydynt yn flaenoriaeth (gwasanaeth 2) yn ôl math o gymhwyster, haf 2014 i haf 2018



Roedd nifer y graddau TGAU nad ydynt yn flaenoriaeth a heriwyd a newidiadau mewn graddau TGAU nad ydynt yn flaenoriaeth i gyd yn is yn haf 2018 ar ôl cynnydd yn haf 2017 (Ffigur 8). Mae'r ffaith y dyfarnwyd llai o raddau TGAU, yn ogystal â gostyngiad bach yn y tebygolrwydd bod gradd wedi cael ei herio yn ffactorau sy'n cyfrannu at y gostyngiad hwn.

Ffigur 9: Nifer y graddau a heriwyd a graddau a newidiwyd ar gyfer adolygiadau â blaenoriaeth o waith marcio (gwasanaeth P2) yn ôl math o gymhwyster, haf 2014 i haf 2018



Pearson yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig gwasanaeth adolygiad â blaenoriaeth o waith marcio ar gyfer cymwysterau TGAU. Mae'r rhain wedi cael eu heithrio o Ffigur 9 am fod nifer yr adolygiadau P2 Pearson yng Nghymru yn fach iawn.


Er gwaethaf nifer yr adolygiadau â blaenoriaeth o waith marcio TAG a graddau TAG a heriwyd yn cynyddu, arhosodd nifer y graddau TAG a newidiwyd yn sefydlog yn haf 2018 o gymharu â haf 2017.

Cyflwynir ffigurau ar gyfer adolygiadau o wallau gweinyddol ac adolygiadau o waith cymedroli yn nhablau ategol 3, 4, 5 a 6. Nid ydynt wedi'u cyflwyno yma oherwydd bod y niferoedd yn fach.

GRADDAU A HERIWDYD A GRADDAU A NEWIDIWYD YN ÔL PWNC

A YW RHAI PYNCAU YN FWY TEBYGOL O GAEL ADOLYGIADAU NAG ERAILL?

Ffigur 10: Canran y graddau cymwysterau a heriwyd a graddau a newidiwyd ar gyfer cymwysterau TGAU yn ôl pwnc, haf 2017 o gymharu â haf 2018




Ffynhonnell: 2018 - Cyrff dyfarnu; 2017 - Ofqual

Mae tebygolrwydd y bydd gradd yn cael ei herio a gradd yn newid yn amrywio o un pwnc i'r llall. Mae pynciau lle mae'r asesiad yn fwy goddrychol, megis Saesneg, yn fwy tebygol o gynhyrchu achosion o herio graddau a newidiadau mewn graddau o gymharu â phynciau mwy gwrthrychol.

O'r pynciau TGAU gydag o leiaf 200 o ddyfarniadau yn haf 2018, Saesneg oedd y pwnc gyda'r gyfran fwyaf o raddau a heriwyd (3.9%). Saesneg (0.6%), Llenyddiaeth Saesneg (0.6%), Gwyddorau Eraill (0.6%) a Chyfrifiadura (0.5%) oedd y pynciau lle roedd hi'n fwyaf tebygol y byddai gradd TGAU yn cael ei newid.

Ffigur 11: Canran y graddau cymwysterau a heriwyd a graddau a newidiwyd ar gyfer cymwysterau TAG yn ôl pwnc, haf 2017 o gymharu â haf 2018




Ffynhonnell: 2018 - Cyrff dyfarnu; 2017 - Ofqual

O'r pynciau TAG gyda dros 50 o ddyfarniadau yn haf 2018, Cerddoriaeth (9.8%) a Llenyddiaeth Saesneg (8.4%) oedd y pynciau lle roedd hi'n fwyaf tebygol y byddai graddau yn cael eu herio. Yn yr un modd, Cerddoriaeth (1.1%) a Llenyddiaeth Saesneg (1.5%) oedd y pynciau lle roedd hi'n fwyaf tebygol y byddai newid mewn gradd hefyd. Roedd y pynciau hyn hefyd yn amlwg ymhlith y pynciau â'r cyfrannau uchaf o raddau a heriwyd yn haf 2017.

GRADDAU SY'N DESTUN ADOLYGIAD

A YW ADOLYGIADAU WEDI'U TARGEDU AT RADDAU PENODOL?

Ffigur 12: Dosbarthiad o raddau cymwysterau gwreiddiol sy'n destun her



Ar gyfer cymwysterau TGAU A* i G, gradd D oedd y radd a heriwyd fwyaf (58.1%) yn haf 2018, fel yn haf 2017 (58.4%). Gellir egluro amlygrwydd gradd D fel gradd TGAU sy'n cael ei hadolygu gan bwysigrwydd cyflawni gradd C i fyfyrwyr (creu cyfleoedd i symud ymlaen at gyflogaeth neu astudio ymhellach) ac ysgolion (mae gradd C yn cynrychioli meincnod pwysig mewn sawl mesur perfformiad allweddol).


Mae adolygiadau o raddau TGAU 9 i 1 wedi'u dosbarthu'n fwy cyson ar hyd y raddfa graddau, er bod hyn yn seiliedig ar niferoedd llawer llai.

Mae dros 60% o adolygiadau TAG wedi'u targedu at radd B (33.5%) a gradd C (27.9%). Mae'n debygol bod hyn oherwydd pwysigrwydd cyflawni graddau ar frig y raddfa graddau er mwyn cael lle mewn prifysgol.

NEWIDIADAU MEWN MARCIAU CRAI

BETH YW'R ADDASIAD MEWN MARC CRAI MWYAF TEBYGOL YN DILYN ADOLYGIAD?


Ffigur 13: Dosbarthiad o newidiadau mewn marciau crai TGAU yn dilyn adolygiad, haf 2017 o gymharu â haf 2018



Roedd cynnydd tebyg ond fwy cymedrol o achosion o ddim newid mewn marciau mewn adolygiadau TAG, i fyny o 60.2% yn haf 2017 i 68.4% yn haf 2018 (Ffigur 4). Mae cynnydd mwy eithafol o 5 marc neu fwy yn fwy cyffredin mewn cymwysterau TAG – digwyddodd hyn mewn 8.3% o adolygiadau yn haf 2018, o gymharu â 9.2% yn haf 2017. Gall hyn fod yn gysylltiedig â nifer fwy o gwestiynau tariff uwch mewn asesiadau TAG.

Mae ffigur 13 yn dangos bod cynnydd yn haf 2018 yn y gyfran o adolygiadau TGAU a arweiniodd at ddim newid mewn marc (73.6%), i fyny o 54.2% yn haf 2017. Mae'n debygol bod hyn yn gysylltiedig â'r ffaith bod newid i'r rheolau o ran adolygu gwaith marcio yn cael ei weithredu'n fwy llym, a dim ond ar gyfer gwall clir yn y gwaith marcio gwreiddiol y caniateir newid mewn marc, yn hytrach na gwneud newid ar sail mantais yr amheuaeth neu farn academaidd wahanol (gweler Newidiadau i adolygiadau o waith marcio ar dudalen 4).

Ffigur 14: Dosbarthiad o newidiadau mewn marciau crai TAG yn dilyn adolygiad, haf 2017 o gymharu â haf 2018



NEWID MEWN MARCIAU CRAI ABSOLIWT AR GYFARTALEDD YN ÔL PWNC

A YW ADOLYGIADAU AR GYFER PYNCAU PENODOL YN FWY TEBYGOL O ARWAIN AT NEWIDIADAU MAWR MEWN MARCIAU?

Ffigur 15: Newid mewn marciau TGAU crai absoliwt ar gyfartaledd yn ôl pwnc, haf 2017 o gymharu â haf 2018




O'r deg pwnc TGAU sy'n cael eu herio fwyaf, Llenyddiaeth Saesneg oedd yn gysylltiedig â'r newid mewn marciau crai absoliwt uchaf ar gyfartaledd (1.2 marc) yn haf 2018, er bod hyn yn is na'r newid mewn marciau ar gyfartaledd ar gyfer yr un pwnc yr haf diwethaf (2.4 marc).

Ar lefel TAG, mae Celf a Dylunio yn sefyll allan gyda newid mewn marciau crai absoliwt o 6.0 marc. Gwelwyd newid mewn marciau crai absoliwt ar gyfartaledd a oedd yn uwch na 3.0 marc mewn Llenyddiaeth Saesneg yn y ddwy gyfres haf ddiweddaraf. Mae'n debygol mai natur oddrychol yr asesu yn y pynciau hyn sy'n achosi'r newidiadau uwch mewn marciau.

Mae ffigurau 15 a 16 yn dangos y newid mewn marciau absoliwt ar gyfartaledd ar gyfer y deg pwnc TGAU a TAG sydd â'r nifer fwyaf o raddau a heriwyd. Mae newidiadau mewn marciau crai yn ymwneud â'r gwahaniaeth yn y marc a roddwyd i uned, cydran neu is-gydran unigol cyn ac ar ôl adolygiad. Y newid mewn marciau absoliwt yw'r newid mewn marciau a fynegwyd fel gwerth cadarnhaol a chyfrifir y cyfartaledd drwy ddefnyddio'r holl newidiadau mewn marciau absoliwt, gan gynnwys newidiadau mewn marciau o sero.


Ffigur 16: Newid mewn marciau TAG crai absoliwt ar gyfartaledd yn ôl pwnc, haf 2017 o gymharu â haf 2018




MAINT Y NEWID MEWN GRADDAU

BETH YW EFFAITH YR ADOLYGIADAU AR RADDAU?

Ffigur 17: Cyfran yr achosion o herio graddau TGAU sy'n arwain at newid mewn graddau a maint y newidiadau mewn graddau TGAU, haf 2017 o gymharu â haf 2018



Ffigur 18: Cyfran yr achosion o herio graddau TAG sy'n arwain at newid mewn graddau a maint y newidiadau mewn graddau TGAU, haf 2017 o gymharu â haf 2018



Mae Ffigurau 17 ac 18 yn dangos nad yw'r mwyafrif o adolygiadau yn arwain at newid mewn gradd – dim ond 13.7% o achosion o herio graddau ar gyfer TGAU a 15.3% ar gyfer TAG a arweiniodd at newid mewn gradd yn haf 2018. Gostyngodd cyfran y graddau a newidiwyd o gymharu â haf 2017, yn enwedig ar lefel TGAU. Mae'n debygol bod hyn oherwydd bod newidiadau mewn rheolau o ran adolygu gwaith marcio yn cael eu gweithredu'n fwy llym, a arweiniodd at gynnydd yn nifer yr arolygiadau gyda dim newid mewn marciau hefyd (Ffigur 13).

Lle nad yw adolygiad yn arwain at newid mewn gradd, anaml y bydd maint y newid yn ddwy radd neu fwy. Yn haf 2018, roedd 1.1% o newidiadau mewn graddau TGAU a 1.5% o newidiadau mewn graddau TAG yn ddwy radd neu fwy.

AMSEROEDD YMATEB CYFARTALOG

PA MOR GYFLYM Y MAE CYRFF DYFARNU YN DATRYS ADOLYGIADAU?

Tabl 3: Yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau adolygiadau o waith marcio yn ôl math o adolygiad, cyfres arholiadau'r haf a chorff dyfarnu

Corff Dyfarnu	Blwyddyn	TGAU: adolygiad o waith marcio (nad yw'n flaenoriaeth)		TGAU: adolygiadau o waith marcio (â blaenoriaeth)		TAG: adolygiadau o waith marcio (â blaenoriaeth)	
		Adolygiadau y gofynnwyd amdanynt	Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau adolygiadau (diwrnodau)	Adolygiadau y gofynnwyd amdanynt	Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau adolygiadau (diwrnodau)	Adolygiadau y gofynnwyd amdanynt	Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau adolygiadau (diwrnodau)
AQA	2017	500	7.9	135	6.8	65	4.6
	2018	290	10.8	90	8.3	90	7.8
OCR	2017	95	3.6	65	4.1	65	5.3
	2018	20	5.8	45	6.4	40	2.9
Pearson	2017	140	4.9	110	4.2	25	4.3
	2018	65	5.2	55	9.6	50	3.9
CBAC	2017	12,100	7.5	2,075	5.0	380	3.5
	2018	8,425	2.4	2,120	3.4	410	3.5
Total	2017	12,835	7.5	2,380	5.0	540	3.9
	2018	8,800	2.6	2,305	3.7	595	4.1

Ffynhonnell: 2018 - Cyrff dyfarnu; 2017 - Ofqual

Yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau adolygiadau o waith marcio TGAU (nad ydynt yn flaenoriaeth) yn ystod haf 2018 oedd 2.6 diwrnod, i lawr o 7.5 diwrnod yn ystod haf 2017. Ymdrechion gan CBAC i gyflymu eu proses adolygu, er enghraifft drwy anfon sgrïptiau at adolygwyr yn electronig yn hytrach na thrwy'r post a chynyddu nifer yr adolygwyr, oedd yn gyfrifol am y gostyngiad hwn. Yr unig gorff dyfarnu i gynnig adolygiadau â blaenoriaeth o waith marcio TGAU yw Pearson; nid yw'r data hyn yn cael eu cyflwyno oherwydd y niferoedd bach dan sylw.


Roedd yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau adolygiadau o waith marcio TAG ychydig yn gyflymach ar gyfer adolygiadau o waith marcio nad ydynt yn flaenoriaeth (3.7 diwrnod) o gymharu ag adolygiadau â blaenoriaeth o waith marcio (4.1 diwrnod). Mae hyn yn rhannol oherwydd y gofynnir am y mwyafrif o adolygiadau TAG yn gynnar yn y cyfnod adolygu, sy'n cyd-fynd â'r amser mwyaf tebygol i swyddogion pwnc ac adolygwyr gymryd gwyliau blynyddol.

Nid oes digon o adolygiadau o wallau gweinyddol ac adolygiadau o waith cymedroli i alluogi cymhariaeth ystyrlon gan gorff dyfarnu.

UNEDAU/CYDRANNAU SY'N DESTUN ADOLYGIAD

PA UNEDAU/CYDRANNAU OEDD FWYAF TEBYGOL O GAEL EU HADOLYGU?

Ffigur 20: Y 10 uned/cydran TGAU fwyaf tebygol o gael eu hadolygu yn haf 2018 (o leiaf 1,000 o gofrestriadau)




Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu

Mae ffigur 20 yn dangos canran y cofrestriadau uned/cydran a adolygwyd a chanran yr adolygiadau a arweiniodd at newid mewn marciau ar gyfer y 10 uned/cydran TGAU (o leiaf 1,000 o fyfyrwr wedi'u cofrestru) â'r ganran uchaf o adolygiadau o waith marcio y gofynnwyd amdanynt (mae dros 99% o adolygiadau TGAU yn adolygiadau o waith marcio, â blaenoriaeth ac nad ydynt yn flaenoriaeth).

Ar lefel TGAU, yr uned gyda'r ganran uchaf o gofrestriadau a adolygwyd oedd Hanes *Yr Almaen 1919-39*. Canlyniadau isel yw'r esboniad mwyaf tebygol am y cynnydd yn yr achosion o graffu ar farciau'r uned hon. Mae gweddill y 10 uchaf i gyd yn unedau Mathemateg a Saesneg laith, sy'n dangos pwysigrwydd canlyniadau yn y pynciau hyn i fyfyrwr, ysgolion a cholegau.

Mae codau uned TGAU yn nodi'r haen cofrestru a chyfrwng yr asesiad. Mae'r ddwy uned Mathemateg - Rhifedd CBAC ar lefel ganolradd wedi'u cynnwys yn y 10 uned a adolygwyd fwyaf drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Ffigur 21: Y 10 uned/cydran TAG fwyaf tebygol o gael eu hadolygu yn haf 2018 (o leiaf 500 o gofrestriadau)



Mae ffigur 21 yn dangos canran y cofrestriadau uned/cydran a adolygwyd a chanran yr adolygiadau a arweiniodd at newid mewn marciau ar gyfer y 10 uned/cydran TAG (o leiaf 500 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru) â'r ganran uchaf o adolygiadau o waith marcio y gofynnwyd amdanynt (mae dros 98% o adolygiadau TAG yn adolygiadau o waith marcio, â blaenoriaeth ac nad ydynt yn flaenoriaeth).

Ar gyfer cymwysterau TAG mae llawer mwy o amrywiaeth o ran y pynciau a gynrychiolir yn y 10 uchaf. Llenyddiaeth Saesneg Uned 1 CBAC (7.0%) a Hanes *Cymru a Lloegr 1485-1603* CBAC (6.8%) oedd yr unedau TAG a oedd yn fwyaf tebygol o gael adolygiad, er bod y cyntaf yn llawer mwy tebygol o arwain at newid mewn marciau (43.6% o gymharu â 27.0%).

RHESTR TERMAU

Corff Dyfarnu

Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, yn nodi ac yn monitro asesiadau ac yn cyflwyno dyfarniadau i ddysgwyr, yn cydnabod y deilliannau dysgu yn ffurfiol (gwybodaeth, sgiliau a/neu gymwyseddu), yn dilyn gweithdrefn asesu a dilysu. Mewn rhannau eraill o'r DU gelwir y rhain yn Sefydliadau Dyfarnu neu Fyrddau Arholi.

TGAU

Mae cymwysterau Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd ar gael mewn amrywiaeth eang o bynciau. Cymwysterau TGAU yw'r prif gymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 cyffredinol ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru.

Gellir eu defnyddio fel sail i astudio neu hyfforddi ar lefel uwch, neu i gael mynediad uniongyrchol i gyflogaeth.

Safon Uwch

Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch, a elwir hefyd yn TAG Safon Uwch. Cymwysterau a gaiff eu hastudio, ar ôl cymwysterau TGAU, mewn amrywiaeth o bynciau. Dysgwyr 16-18 oed sydd fel arfer yn dilyn cwrs astudio dwy flynedd sy'n eu hastudio fel arfer. Maent yn cael eu defnyddio fel sail i dderbyn myfyrwyr i addysg uwch, hyfforddiant pellach neu fynediad i gyflogaeth.

Uwch Gyfrannol (UG)

Cymhwyster sy'n ffurfio rhan gyntaf cymhwyster Safon Uwch. Gellir ei gymryd fel cymhwyster ar wahân. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n cyfrannu at ganlyniad y Safon Uwch. Yn Lloegr, ni all cymwysterau Uwch Gyfrannol gyfrannu at y Safon Uwch.

Canolfan

Corff sy'n cyflenwi asesiadau (a gweithgareddau eraill o bosibl) i ddysgwyr ar ran corff dyfarnu. Fel arfer, sefydliadau addysg, darparwyr hyfforddiant neu gyflogwyr yw'r canolfannau hyn.

NODIADAU CEFNDIR

Ar 21 Tachwedd 2017, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 a enwodd Cymwysterau Cymru yn un o'r cyrff sydd o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007. Mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu mewn cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer Ystadegau Swyddogol³ ac mae wedi cyhoeddi'r datganiad ystadegol hwn fel Ystadegau Swyddogol.

Ffynhonnell Data

Darparodd AQA, OCR, Pearson a CBAC ddata wedi'u dadgyfuno ar adolygiadau y gofynnwyd amdanynt ar gyfer asesiadau TGAU (yr holl gyrsiau llawn, cyrsiau byr, dyfarniadau cymhwysol a dwbl), Uwch Gyfrannol a Safon Uwch a gwblhawyd yng nghyfes haf 2018. Cyn blwyddyn academiaidd 2017/18, roedd cyrff dyfarnu yn adrodd ar eu data ar gyfer Cymru i Ofqual.

Hyd at haf 2016, roedd cyrff dyfarnu yn cyflwyno adolygiadau cyfunol o ddata marcio i Ofqual. Roedd hyn yn golygu bod cywirdeb adolygiad cyhoeddedig o ddata marcio yn ddibynnol ar gyrfff dyfarnu yn cyfrifo cyfansymiau cyfunol yn gywir cyn adrodd ar eu data. Ar ôl haf 2016, roedd y cyrff dyfarnu yn darparu adolygiad wedi'i ddadgyfuno o ddata marcio. Felly, mae'r holl ffigurau a gofnodwyd ar gyfer haf 2016 a haf 2017 wedi cael eu cyfrifo gan Ofqual i Gymru, ac o fis Tachwedd 2017 ymlaen byddant yn cael eu cyfrifo gennym ni.

Cyfyngiadau'r data

Cyflwynir y data sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn i ni gan gyrfff dyfarnu. Felly, ni all Cymwysterau Cymru sicrhau bod y wybodaeth a gafwyd yn gywir. Mae Cymwysterau Cymru yn cymharu'r data dros amser ac yn gwirio ar gyfer problemau systematig. Cynhelir gweithdrefnau sicrhau ansawdd i sicrhau cywirdeb y data a'u herio neu eu cwestiynu, lle bo angen. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoli'r broses hon yn barhaus drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod darparwyr data yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt ac yr ymgynghorir yn llawn â nhw yn ystod y cyfnodau cynllunio cychwynnol ac unrhyw gyfnodau newid dilynol;
- Atgoffa pob darparwr (os yw'n briodol) bod yn rhaid i'r holl ddata fod yn hollol gywir fel amod eu bod yn cael eu rheoleiddio;

³ <https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/>

- Bod yn wyliadwrus o newidiadau annisgwyl yn y data a gyflwynir drwy gymharu ffurflenni unigol dros amser gan yr un darparwr;
- Herio unrhyw ganlyniadau annisgwyl gyda'r darparwyr data.

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad yw'r ystadegau yn cael eu hystyried yn addas at y diben.

Mae data wedi cael eu casglu ar bwynt priodol pan fyddant wedi'u cwblhau'n rhesymol. Ar gyfer adolygiadau o waith marcio haf 2018, xx xxxxxxx 2018 oedd hyn. Mae'r data cofrestriadau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn yn seiliedig ar gofrestriadau o'n datganiad ystadegol am gofrestriadau, cofrestriadau hwyr a dyfarniadau a gyhoeddwyd ar X, ac mae'r data yn gywir ar xx 2018. Dros dro yw'r data cofrestriadau a gall ysgolion barhau i wneud cofrestriadau hwyr hyd at ddyddiad yr arholiad, felly bydd cyfanswm nifer y cofrestriadau yn newid i gofrestriadau dros dro.

Cymariaethau

Cyn cyfres Haf 2016, roedd y cyrff dyfarnu yn darparu data cyfunol ar adolygiadau i Ofqual. Mae hyn yn golygu bod y ffigurau a gofnodwyd cyn hyn yn cael eu cyfrifo gan bob corff dyfarnu a lle roedd cyfansymiau yn cael eu cofnodi ym mhob corff dyfarnu, roedd Ofqual yn cyfrifo hyn drwy ddefnyddio'r data a ddarparwyd. Ers cyfres haf 2016, mae'r cyrff dyfarnu yn darparu data ar gyfer pob adolygiad a geir, felly mae holl ffigurau cyfres haf 2016 – haf 2017 a gofnodwyd wedi cael eu cyfrifo gan Ofqual i Gymru, ac o fis Tachwedd 2017 ymlaen byddant yn cael eu cyfrifo gennym ni. Felly, dylid bod yn ofalus wrth gymharu data hanesyddol â data haf 2016 ac ar ôl hynny oherwydd newid mewn methodoleg.

Cwmpas Daeryddol

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar adolygiadau o waith marcio TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch ar gyfer cyfres arholiadau haf 2018 ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Diwygiadau

Unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi, nid yw data ar nifer yr adolygiadau o waith marcio fel arfer yn cael eu diwygio, er y gall datganiadau dilynol gael eu diwygio i gynnwys data hwyr neu gywiro gwall.

Cyflawnrwydd y data

Mae cyrff dyfarnu yn anfon data ar adolygiadau o waith marcio ar gyfer yr holl gymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch rheoleiddiedig. Mae Cymwysterau Cymru yn cysylltu ag unrhyw gorff dyfarnu nad yw'n dychwelyd cyfres lawn o ddata o fewn y cyfnod casglu, i wneud yn siŵr bod y data mor gyflawn â phosibl.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi interim allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru, caiff yr holl ffigurau ar gyfer nifer y tystysgrifau a gyflwynir eu talgrynnu. Yn y sylwebaeth a'r tablau, maent wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Rhoddir * yn lle ffigurau llai na 5 ond mwy na 0. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r data yn datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ganrannau o fewn y sylwebaeth yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly mae'n bosibl na fyddant yn symio i'r cyfanswm.

Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, Ofqual a rheoleiddwyr cymwysterau eraill, cyrff dyfarnu a Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o bwy yw ein defnyddwyr dros amser. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i fonitro ansawdd y gwaith marcio yn y system gymwysterau.

Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn ymwneud â'r datganiad hwn, gan gynnwys y canlynol:

- Datganiad 'Reviews of marking and moderation' Ofqual⁴.
- Datganiad 'Canlyniadau Arholiadau yng Nghymru, 2017/18'⁵, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae rhestr termau ar gael ar dudalen x i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Ceir gwybodaeth am gyhoeddiadau yn y dyfodol ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru.

⁴ <https://www.gov.uk/government/statistics/reviews-of-marking-and-moderation-for-gcse-as-and-a-level-summer-2018-exam-series>

⁵ <https://gov.wales/statistics-and-research/examination-results/?skip=1&lang=cy>

Mae'r [gofrestr QiW](#) yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

Y diweddariad nesaf

Rhagfyr 2019.

Adborth gan ddefnyddwyr

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei ddarparu drwy e-bost i statistics@qualificationswales.org

(h) (2018) Rhoddir caniatâd i'w atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.